TELERAU AC AMODAU GWASANAETH A THELERAU PENODI

BARNWR HAEN GYNTAF SY'N DERBYN FFI

CYFLWYNIAD

1. Mae'r canlynol yn grynodeb sylfaenol o delerau ac amodau gwasanaeth. Rhaid i farnwr Tribiwnlys Haen Gyntaf ddal a gadael ei swydd yn unol â thelerau ei b/phenodi.

LLEOLIADAU

2. Mae awdurdodaeth ddaearyddol y Tribiwnlys yn cynnwys Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a chaiff ei threfnu ar sail ranbarthol. Dyrennir deilydd swydd farnwrol i ranbarth, ac fel arfer, ni fyddai disgwyl iddo/iddi deithio i wrandawiadau y tu allan i'r rhanbarth hwnnw, er y gellid gofyn iddo/iddi wneud hynny ar brydiau.

Y SEIRI RHYDDION

3. Yn dilyn ymateb y Llywodraeth i Adroddiad Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar y Seiri Rhyddion yn yr Heddlu ac yn y Farnwriaeth, gofynnir i unrhyw un a benodir am y tro cyntaf i swydd farnwrol, fel un o amodau eu penodi, a ydynt yn perthyn i'r Seiri Rhyddion ac, os nad ydynt, eu bod yn rhoi gwybod i'r Arglwydd Ganghellor pe baent yn ymuno â'r Seiri Rhyddion ar ôl hynny. Rhaid i'r rhai sy'n dal swyddi barnwrol ddisgwyl y bydd y wybodaeth hon, o bosibl, yn ymddangos mewn cofrestr gyhoeddus.

HYD Y PENODIAD

4. Penodir barnwr sy'n derbyn ffi am gyfnod (y gellir ei adnewyddu) o bum mlynedd, yn amodol ar y terfyn oedran uchaf.

ADNEWYDDU'R PENODIAD

5. Ar ddiwedd y penodiad cychwynnol o bum mlynedd, adnewyddir y penodiad hwnnw am gyfnodau dilynol pellach o bum mlynedd, fel mater o drefn, yn dibynnu ar gytundeb yr unigolyn i hynny ac nad ydynt yn hŷn na'r terfyn oedran, oni bai fod cwestiwn yn codi i'r gwrthwyneb, neu os nad yw'r unigolyn bellach yn bodloni'r amodau neu'r cymwysterau ar gyfer penodi.

   Mae saith rheswm dros beidio ag ailbenodi:

   (a) anallu;
   (b) camymddygiad; gan gynnwys
   (c) methiant parhaus i gydymffurfio â'r gofynion eistedd (heb reswm da);
   (d) methu â chydymffurfio â gofynion hyfforddi;
   (e) methiant cyson i gydymffurfio â'r safonau y gellid eu disgwyl o fewn rheswm gan ddeilydd swydd o'r fath;
   (f) rhan o ostwng niferoedd yn sgîl newidiadau yn y gofynion gweithredol;
   (g) rhan o newid strwythurol er mwyn gallu recriwtio barnwyr newydd sy'n derbyn ffi.

6. Yr Arglwydd Ganghellor a fydd yn gyfrifol am bob penderfyniad i beidio ag adnewyddu ar sail (a) – (e) gyda chydsyniad yr Arglwydd Brif Ustus. Gwneir penderfyniadau o'r fath yn dilyn ymchwiliad a gynhelir gan farnwr a fydd yn adrodd i'r Arglwydd Ganghellor ac Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr. Pan fydd barnwr

tribiwnlys yn eistedd yn yr Alban yn unig, neu yn yr Alban gan amlaf, rhaid cael cydsyniad Arglwydd Lywydd Llys y Sesiwn i ddefnyddio'r grym hwn. Pan fydd barnwr Tribiwnlys yn eistedd yng Ngogledd Iwerddon yn unig, neu yng Ngogledd Iwerddon gan amlaf, rhaid cael cydsyniad Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon i ddefnyddio'r grym hwn.

7. Gwneir pob penderfyniad i beidio ag adnewyddu penodiad ar sail (f) neu (g) ar yr egwyddor "mai'r cyntaf i mewn fydd y cyntaf i adael", yn ddarostyngedig i ofynion y Tribiwnlysoedd Haen Gyntaf. Yr Arglwydd Ganghellor a fydd yn gwneud y penderfyniad i ddefnyddio sail o'r fath, ac i ba raddau y caiff ei ddefnyddio, ar ôl iddo ymgynghori gydag Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd, a chyda chydsyniad yr Arglwydd Brif Ustus/Arglwydd Lywydd/Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon.

8. Caiff barnwyr sy'n derbyn ffi ddewis dirwyn eu penodiad i ben trwy ymddiswyddo neu trwy wrthod derbyn adnewyddiad pan ddaw cyfnod y swydd i ben.

Y TERFYN OEDRAN UCHAF

9. Ni fydd yr Arglwydd Brif Ustus, fel rheol, yn ymestyn penodiad barnwr sy'n derbyn ffi y tu hwnt i 70 oed.

HYFFORDDIANT

10. Nid yw'r bobl a benodir o'r newydd i ddal swydd sy'n talu ffi yn gymwys i eistedd nes y bônt wedi mynychu ac wedi cwblhau'n foddhaol y cwrs cynefino cychwynnol. Yn ystod eu penodiad, mae'n ofynnol i'r rhai sy'n dal swydd farnwrol ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant parhaus pellach y gallai Llywydd y Siambr ei drefnu a'i gwneud yn ofynnol iddynt ei fynychu.

GOFYNION EISTEDD

11. Gelwir ar farnwr sy'n derbyn ffi i eistedd ac i ymgymryd â dyletswyddau penodedig eraill yn ôl yr angen. Mae amlder yr eisteddiadau ayb. yn dibynnu ar lwyth gwaith y Tribiwnlys ac ar ymrwymiadau'r sawl sy'n dal y swydd. Nid oes modd rhoi sicrwydd o isafswm nifer o ddiwrnodau eistedd, ond byddai disgwyl i ddeilydd swydd farnwrol gael cynnig o leiaf 15 eisteddiad, sy'n debygol o fod yn 30 sesiwn hanner diwrnod bob blwyddyn.

GWERTHUSO NEU FENTORA

12. Mae hi'n hanfodol bod pob deilydd swydd farnwrol yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn sicrhau y cynhelir y gwasanaeth o ansawdd uchel y mae'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn ei ddarparu. Rhoddir y gefnogaeth hon i bob deilydd swydd farnwrol drwy gyfrwng mentora, cyngor ac arweiniad gan weithwyr treth cyflogedig y farnwriaeth, dan reolaeth cyffredinol Llywydd y Siambr.

GWRTHDARO RHWNG BUDDIANNAU

13. Yr egwyddor bennaf yw na ddylai neb eistedd mewn swydd farnwrol dan unrhyw amgylchiadau a fyddai'n arwain unigolyn gwrthrychol sy'n bresennol, ac sy'n gwybod yr holl ffeithiau perthnasol, i amau o fewn rheswm y gallai'r unigolyn fod yn unochrog. Fel egwyddor gyffredinol, felly, ni ddylai bargyfreithiwr nac eiriolwr sy'n dwrnai eistedd fel deiliad swydd farnwrol, nac ymddangos gerbron tribiwnlys mewn canolfan gwrandawiadau benodol, os yw hi'n debygol, trwy wneud hynny, y gellid codi cywilydd arno ef neu hi yn y naill swydd neu'r llall, drwy wneud hynny.

14. Fel rheol gyffredinol, byddai'n annymunol i'r rhai sy'n dal swydd farnwrol ac sy'n dwrneiod eistedd mewn tribiwnlys neu ganolfan gwrandawiadau lle maent yn ymarfer yn rheolaidd. Y rheswm dros hyn yw er mwyn osgoi'r sefyllfa lle byddent yn cael eu

haseinio i farnu mewn achosion lle byddai'n rhaid iddynt sefyll i lawr o'r achos hwnnw. Os oes rhywun mewn swydd farnwrol, sydd hefyd yn dwrnai, yn eistedd mewn canolfan gwrandawiadau neu dribiwnlys o'r fath, yna, yng ngolwg yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus, cyfrifoldeb personol y sawl sy'n dal y swydd farnwrol (ac nid cyfrifoldeb staff y tribiwnlys na'r ganolfan gwrandawiadau) yw osgoi, cyn belled ag y bo modd, unrhyw wrthdaro posibl rhwng buddiannau a allai olygu bod rhaid iddo/iddi dynnu'n ôl o achos penodol.

15. Disgwylir i'r rhai sy'n dal swyddi barnwrol ymatal rhag unrhyw weithgarwch, boed hwnnw'n wleidyddol neu fel arall, a fyddai'n gwrthdaro gyda'u swyddi barnwrol neu'n cael ei ystyried yn rhywbeth a fyddai'n peryglu eu gallu i fod yn ddiduedd, gyda golwg, er enghraifft, ar sylwadau'r Llys Apêl yn achos *Locabail*. Dylent hefyd fod yn ymwybodol y gallai eraill gael yr argraff nad ydynt yn ddiduedd yn sgîl erthyglau neu ddatganiadau cyhoeddus a gyhoeddir, ayb. (Timmins v Gormley [(2000) 2 W.L.R 870]). Dylai'r rhai sy'n dal swyddi barnwrol sy'n derbyn ffi fod yn ofalus wrth gyfeirio at eu penodiad ar benllythyrau, er enghraifft, neu mewn llenyddiaeth hysbysebu'r siambrau. Dim ond tra maent yn cyflawni swyddogaethau'r swydd y maent yn dal eu swydd ac ni ddylent ddefnyddio eu swydd fel modd o geisio mantais bersonol, proffesiynol na masnachol.

YMDDYGIAD BARNWROL

16. Mae'r cyhoedd yn haeddu, ac yn disgwyl, y safonau ymddygiad gorau posibl gan y rhai sydd mewn swyddi barnwrol. Dylai deilydd swydd hysbysu'r Arglwydd Brif Ustus/Arglwydd Lywydd/Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon a'r Uwch Lywydd cyn gynted ag sy'n bosibl os yw'n ymwybodol o unrhyw fater sy'n ymwneud ag ymddygiad a allai amharu ar ei sefyllfa neu a allai adlewyrchu ar statws neu enw da'r farnwriaeth yn gyffredinol.

17. Mae gan y cyhoedd yr hawl i ddisgwyl i bawb sy'n dal swydd farnwrol gynnal, ar bob adeg, safonau priodol o ran bod yn foesgar ac yn ystyriol. Nid yw'r Arglwydd Ganghellor na'r Arglwydd Brif Ustus yn ystyried bod ymddygiad a allai beri tramgwydd, yn enwedig am resymau hiliol neu grefyddol, neu sy'n cyfateb i aflonyddu rhywiol, yn gydnaws â'r safonau a ddisgwylir gan y rhai sy'n dal swydd farnwrol. Yn eu barn hwy, gellid ystyried cwyn sydd wedi'i chadarnhau am ymddygiad o'r math hwn, boed cwynion wedi'u gwneud o'r blaen ai peidio, yn gamymddygiad.

DISWYDDO

18. Caiff yr Arglwydd Ganghellor, os tybia fod hynny'n addas, ddiswyddo deilydd swydd farnwrol ar sail benodedig. Mae pum rheswm dros ddiddymu penodiad:

    (a) anallu;
    (b) camymddygiad; gan gynnwys
    (c) methu â chydymffurfio â gofynion hyfforddi;
    (d) methiant parhaus i gydymffurfio â'r gofynion eistedd (heb reswm da);
    (e) methiant cyson i gydymffurfio â'r safonau y gellid eu disgwyl o fewn rheswm gan y sawl sy'n dal swydd o'r fath.

19. Yr Arglwydd Ganghellor, gyda chydsyniad yr Arglwydd Brif Ustus/Arglwydd Lywydd/Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon, sy'n gwneud pob penderfyniad i ddiswyddo unigolyn. Caiff penderfyniadau o'r fath eu gwneud yn unol â'r gweithdrefnau yn y Rheoliadau a luniwyd dan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005.

ANGHYMHWYSO

20. Caiff deiliaid swydd farnwrol sy'n derbyn ffi eu heithrio trwy statud rhag gwasanaethu ar yr un pryd fel Aelod Seneddol, ayb. Disgwylir i farnwr sy'n derbyn ffi gyflwyno ei h/ymddiswyddiad i'r Arglwydd Ganghellor pe câi ei h/enwebu neu'i h/ethol yn ddarpar-ymgeisydd i'w h/ethol i'r Senedd, i Senedd yr Alban, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i Gynulliad Gogledd Iwerddon neu i Senedd Ewrop. Dylid ymgynghori â'r Arglwydd Ganghellor os cyfyd amheuaeth ynghylch unrhyw amgylchiadau penodol.

FFIOEDD, TRETH INCWM A CHYFRANIADAU YSWIRIANT GWLADOL

21. Nid oes cyflog na phensiwn ynghlwm wrth y swydd. Bydd deilydd swydd farnwrol yn derbyn ffi am bob diwrnod a eisteddir. Mae lefelau'r ffioedd a'r cyflog sy'n daladwy ar gyfer Tribiwnlys Haen Gyntaf yn cael eu hystyried gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion, ond ni ddisgwylir i'r ffi ddyddiol ar gyfer y swydd hon fod yn is na £400 y diwrnod.

22. Ystyrir bod barnwyr sy'n derbyn ffi yn dal swydd at ddibenion treth ac Yswiriant Gwladol. O ganlyniad, bydd y ffioedd taladwy yn drethadwy dan Atodlen E y Ddeddf Drethi a bydd cyfraniadau Dosbarth 1 Yswiriant Gwladol yn daladwy arnynt. Caiff y rhain eu tynnu drwy system cyflogres y Weinyddiaeth Cyfiawnder a thelir y ffi net i ddeilydd y swydd. Nid yw'r ffioedd yn destun TAW.

COSTAU TEITHIO AYB

23. Mae'n bosib y bydd costau teithio a, dan rai amgylchiadau, lwfansau cynhaliaeth dros nos, yn daladwy yng nghyswllt gwrandawiadau, mynychu cyrsiau hyfforddi, ayb. Bydd manylion y cyfraddau fesul milltir a chynhaliaeth dros nos ar gael gan staff y Tribiwnlys. Mae'n bosibl y bydd y rheolau a chyfraddau'r lwfansau hyn yn newid o bryd i'w gilydd, a rhoddir gwybod ynghylch unrhyw newidiadau o'r fath. Mae'n bosibl hefyd y bydd rheolau treth Cyllid a Thollau EM sy'n pennu'r ffordd y caiff y lwfansau hyn eu trin o safbwynt treth a chyfraddau'r lwfansau, yn newid, a rhoddir gwybod i ddeiliaid swydd ynghylch unrhyw newidiadau o'r fath.

ABSENOLDEB MAMOLAETH, TADOLAETH A MABWYSIADU A THÂL SALWCH STATUDOL

24. Mae gan ddeiliaid swydd farnwrol hawl i absenoldeb mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu a thâl salwch statudol. Darperir manylion gweithredu'r hawliadau hyn i'r deilydd swydd fel sy'n briodol.

CYNGOR

25. Mae croeso i ddeiliaid swyddi barnwrol ymgynghori â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder neu Swyddfa Farnwrol y Tribiwnlys (fel y bo'n briodol) ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â swyddi barnwrol. Dylid cyfeirio ymholiadau barnwrol gan y cyfryngau at Swyddfa Cyfathrebu Barnwrol yr Arglwydd Brif Ustus ar 020 7947 6438. Dylid cyfeirio ymholiadau sy'n ymwneud â gweithredu'r Tribiwnlys at y Prosiect Moderneiddio Apeliadau Treth, sy'n gweithredu ar ran Llywydd y Siambr. Mae manylion cyswllt aelodau'r tîm hwn ar gael yn http://www.financeandtaxtribunals.gov.uk/taxAppealsModernisation.htm

Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
Ebrill 2008